YSGOL PENCAE
Highfields, Gilian Road
Llandaf, Caerdydd
CF5 2QA
Ffôn: 029 20563851
Ebost: ysgolpencae@cardiff.gov.uk

@ pencae2
Dilynwch ni ar Trydar
Follow us on Twitter

Cylchlythyr Rhif 38 /*Newsletter No 38*
12.07.19

Annwyl Riant neu Warcheidwad / *Dear Parent or Guardian,*

Diwedd Cyfnod Mr Thomas / *End of an era for Mr Thomas*

Nawr mae'r amser wedi dod i ni staff ffarwelio gyda Mr Thomas, ein angor ers cyhyd. Yn sicr bydd dydd Gwener yn ddiwrnod melys-chwerw i ni gyd. Mae ymroddiad Mr Thomas i'r ysgol wedi bod yn ddi-ddiwedd ac mae'r natur gymunedol sy'n bodoli yn sicr yn destament o'i weledigaeth a'i foddhad o fod yn 'ysgol bentref yn y ddinas'. Eleni, pan mae wedi ymweld â'r ysgol mae cynnwrf y disgyblion wrth ei weld a'r sibrwd llon o 'Mr Thomas' yn dangos ei berthynas agos gyda'r disgyblion, mae'n adnabod pob un ohonyn nhw ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiannau ac yn buddsoddi'n llwyr yn y profiadau mae'r ysgol yn cynnig iddyn nhw.

I ni'r staff mae wedi bod yn arweinydd gofalgar, yn fos llawn ymddiriaeth, yn gyfaill beirniadol, yn faestro cerddorol ac yn fwy na dim yn 'un ohonom ni'. Roedd yn ein hybu i fentro yn enw 'datblygiad proffesiynol!' Roedd yn sicrhau ein bod ni gyd ar un daith a'r daith honno er budd y disgyblion.

Diolch Mr Thomas am y ffydd, y gefnogaeth, yr hwyl a'r cariad at addysg!

Bydd colled yn bendant yma ar ei ôl ond peidiwch a phoeni, bydd ei ddylanwad yn gadarn yn seiliau'r ysgol am flynyddoedd i ddod wrth i ni draethu a dathlu: **'Siarad Cymraeg gyda Balchder'** ac **'Ymdrech a Lwydda!'**

It is now time for us staff to bid farewell to Mr Thomas, our anchor! Without a doubt, Friday will be a bitter-sweet day for us all. Mr Thomas' devotion to the school has been never ending and the community feel of the school is certainly a testament of his vision to be a 'village school in the capital city'. This year, when he has visited the school, you hear a happy whisper of 'Mr Thomas' filling the air and this is a clear indication of the close relationship he has with the pupils, he knows every single one inside out; he celebrates their successes and invests in the experiences we, as a school, provide them.

To us staff he has been a supportive leader, a trusting boss, a critical friend, a musical maestro and more than anything he was 'one of us'. He encouraged us to venture and that in the name of 'Professional Development!' He ensured that we were all on one journey and that journey was for the benefit of the pupils.

We would like to thank Mr Thomas for his faith, his support, his fun and his love for education! He will be greatly missed by us all but do not worry, he will be leaving his mark as we will continue to celebrate: **'Siarad Cymraeg gyda Balchder'** (Speak Welsh with Pride) and **'Ymdrech a Lwydda!'** (Effort leads to success).

Parti Haf a ffarwelio Mr Thomas CRhA / *PTA's Summer Party and farwell night to Mr Thomas*

Am noson wych! Diolch o galon i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu noson hynod hwylus ble roedd holl gymuned yr ysgol yn mwynhau cymdeithasu yng nghwmni ei gilydd. Roedd y noson hefyd yn gydnabyddiaeth arbennig i Mr Thomas am y blynyddoedd o waith y mae wedi gwneud dros yr ysgol.

What a fabulous night! Thank you very much to the PTA for arranging such a wonderful night where the whole community of Pencae socialised together. It was also a night to celebrate the years of dedication Mr Thomas has given the school.

Cystadleuaeth Criced Cenedlaethol / *National Kwik Cricket Competition*

Yn dilyn eu llwyddiant yn y rownd rhanbarthol, cafodd tîm criced merched Pencae brofiad anhygoel wrth chwarae yn y rownd genedlaethol yn Stadiwm Morgannwg. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw am chwarae yn arbennig a dod yn drydydd yn y gystadleuaeth. Rydym yn falch iawn o'u llwyddiant a diolch i Mr Jones ac i Miss Rees am eu hyfforddi.

Following their success during the district round Pencae's girls cricket team had an excellent experience as they took part in the national round at Glamorgan Stadium. Congratulations to them for coming third in the competition. Thank you to Mr Jones and Miss Rees for training them.

Sioe Charlie a'r Ffatri Siocled / *Charlie and the Chocolate Factory Show*

Nos Fawrth, 16eg o Orffennaf 6yh *Tuesday, 16th July 6pm*

Rydym yn edrych ymlaen i berfformio Charlie a'r Ffatri Siocled wythnos nesaf. Mae disgyblion a staff cyfnod allweddol 2 wedi gweithio'n hynod o galed ac mae gwledd o'ch blaenau.

We look forward to performing Charlie and the Chocolate Factory next week. The staff and pupils of KS2 have been working hard and they have a spectacular show in store for you!

Ffarwelio / *Good byes*

Rydym yn drist iawn i fod yn ffarwelio gyda Mr Ieuan Jones wythnos nesaf. Mae ein diolch iddo yn fawr iddo, yn enwedig am yr egni y mae wedi ei roi i ddarpariaeth chwaraeon yr ysgol. Mae wedi bod yn flaenllaw yn rhoi enw Pencae ar lwyfan cystadlaethau y rhanbarth ac yn genedlaethol gan roi profiadau arbennig iawn i'r disgyblion. Dymunwn pob lwc iddo fel athro yn Ysgol Nant Caerau.
Rydym hefyd yn ffarwelio gyda Mrs Helen Love, ein cogyddes. Mae Mrs Love wedi bod yn rhan o deulu Pencae ers 13 o flynyddoedd a byddwn yn colli ei chwmni a'i chefnogaeth yn fawr.

We are sad to be waving goodbye to Mr Ieuan Jones at the end of next week. We would like to thank him for his hard work, especially the drive and motivation he has shown towards sports. He has been prominent in ensuring that Pencae's name is apparent during district competitions and on the national stage whilst giving our pupils excellent experiences. We wish him well in his new job as a teacher in Ysgol Nant Caerau. Mrs Helen Love, our cook, will also be leaving at the end of the term having worked in the school for 13 years. We will miss her company and support greatly.

Eco-Schools Eco-Sgolion
PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD
Challenge Award nace 2019–2022

Asesiadau personol (Gweithrdrefnol) / *Personal Assessments*

Rydym yn parhau i aros i Lywodraeth Cymru ryddhau sgoriau ac adroddiadau profion rhifedd y disgyblion. Ymddiheuriadau am hyn, rydym wedi cael arddeall eu bod yn gweithio ar eu systemau er mwyn datrys y broblem. Unwaith byddwn ni wedi eu derbyn, byddwn yn cysylltu ac yn rhannu cyfarwyddiadau o ran sut y gallwch chi eu gweld trwy HWB.

We are still waiting for Welsh Government to release the pupil's scores and reports. We apologise for the delay and we have been informed that they are working on their processes in order to solve the problem. Once we have them, we will let you know and share instructions on how to see them via HWB.

** DIOLCH **

Gan mai dyma'r cylchlythyr olaf gen **I** y flwyddyn hon, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth eleni. Mae wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn yn yr ysgol ond un peth sydd wedi aros yn gyson yw y gefnogaeth a'r ymdeimlad o deulu sydd yn bodoli rhwng yr holl gymuned. Mae wedi bod yn 'brofiad' bod wrth y llyw eleni ac mae fy niolch yn fawr i gymaint o bobl am ei wneud yn brofiad pleserus:

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Llywodraethwyr am roi eu ffydd ynof fi i ymgymryd gyda dyletswyddau'r Pennaeth Dros Dro ac am eu cefnogaeth cyson gyda phob penderfyniad roeddwn am ei wneud. Diolch!

Hoffwn ddiolch i chi rieni am eich cefnogaeth dyddiol ac am ganiatau i mi gael y fraint o arwain taith addysg eich plant eleni. Rwyf wir yn gwerthfawrogi a pharchu eich gonestrwydd a'r ffordd rydych yn cydweithio mor agos gyda'r ysgol er mwyn sicrhau yr addysg orau i eich plant. Diolch!

Byddai'r swydd yma'n ddiflas iawn heb y plant ac maen nhw wedi fy niddanu fi eleni! Mae wedi bod yn hyfryd dod i adnabod pob un a'u gweld yn blodeuo. Maen nhw wir wedi bod yn bleser a dw i wrth fy modd gyda'u hegni a'u brwdrydedd! Uchafbwyntiau yn bendant oedd ein Eisteddfod Hwyliog, Gŵyl Chwaraeon Pencae ac Wythnos Lansio Iolo Iachus, a brwdfrydedd y plant yn sicr yw gwraidd eu llwyddiant. Felly diolch o galon iddyn nhw!

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r byddin sydd yn gweithio'n ddi-ddiwedd yn yr ysgol – y staff! Mae'n anodd crynhoi mewn geiriau gymaint mae eu cymorth wedi golygu i mi eleni. Maen nhw wedi bod yn asgwrn cefn, yn driw ac yn hynod o weithgar gydol y flwyddyn. Maent wedi croesawu pob awgrym gyda gwên ac wedi dod a hedyn o syniad yn fyw trwy eu gwaith caled. Annoeth yw enwi aelodau unigol ond hoffwn ddiolch i Mrs Parry am fod yn bartner allweddol i mi gydol y flwyddyn yn ogystal â Mrs Reynolds, mae cefnogaeth y ddwy wedi bod yn ddi-ddiwedd yng ngweithgarwch yr uwch dîm. Mae yna un sydd wedi cadw trefn arnaf a byddwn wedi bod ar goll hebddi – Mrs Monk, mae hi wir yn arbenigwraig ar yr ysgol! Mil o ddiolch i **bob** un aelod o staff!

Edrychaf ymlaen at bennod newydd yn hanes Ysgol Pencae mis Medi, lle bydd fy het dirprwy yn gadarn ar fy mhen a bydd fy nyddiau yn llawn o hynt, helynt a chyffro blwyddyn 6! Mwynhewch yr haf!

*This will be **MY** last newsletter this year and I would like to take the opportunity to thank you all for your support this year. It has been a very different year in the school but one thing that has remained consistent is the continuous support and the feeling of family that exists within the community.*

Firstly I would like to thank the Governors for putting their faith in me to be the Acting Head. They have supported me endlessly with every decision I have made. Diolch!

Eco-Schools Eco-Sgolion
PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD
Challenge Award nace 2019–2022

I would like to thank you parents for your daily support and for allowing me to have the privilege of leading your child's educational journey this year. I appreciate and respect your honesty and the way you co-operate with the school in order to provide your children with the best education. Diolch!

This job would be very boring without the company of the children and they have entertained me greatly this year! It has been a pleasure to observe them grow and I am in awe of their energy and enthusiasm. Our highlights have been the Eisteddfod, our Sports Festival and Iolo Iachus' Launch Week, their success is down to the pupil's response and enthusiasm. Thanks from the bottom of my heart to our wonderful children.

Last but not least, the army who work tirelessly day in day out – the staff! It's hard to put in words how much their support has meant to me this year. They have been my backbone, they are loyal and extremely conscientious. They have accepted every suggestion with a smile and grown every seed of an idea with their hard work. It is not wise to name names, but I would like to thank Mrs Parry for being an essential partner to me this year and to Mrs Reynolds, as their support as part of the senior leadership team has been endless. One lady has kept me in check and answered every question that I had with a breadth of knowledge about the school – Mrs Monk! A thousand diolch to ***every*** *member of staff.*

I now look forward to the next exciting chapter of Ysgol Pencae, where my deputy hat will be securely on my head and my days will be full of the experiences, fun and excitement of year 6. Enjoy the summer!

Clybiau Ar Ôl Ysgol / After School Clubs

DOES DIM CLYBIAU WYTHNOS NESA! / *THERE ARE NO CLUBS NEXT WEEK!*

TOP TIP Diogelwch y We Gorffennaf ***JULY's Internet Safety TOP TIP***	**Targed Teulu Siarter Iaith** ***Siarter Iaith Family Target***
Cofiwch bod unrhyw lun rydych yn postio yn gyhoeddus ac yno am byth!	Chwaraewch gêm o Rwy'n gweld gyda fy llygaid bach i… **Gwrandewch ar gerddoriaeth**: Gwibdaith Hen Frân (♫ Gwena♫)
Remember that every photo you share online is public and there for ever!	*Play a game of I Spy in Welsh. "Rwy'n gweld gyda fy llygaid bach i, rywbeth yn dechrau gdya…'* ***Listen to the band****:* Gwibdaith Hen Frân (♫ Gwena♫)

Dyddiadau pwysig / *Important dates*

Dyddiad / Date	Gweithgaredd / *Activity*
16.07.19 ***6pm***	Charlie a'r Ffatri Siocled - Sioe CA2, Ysgol Glantaf (mwy o wybodaeth i ddilyn) *Charlie and the Chocolate Factory - KS2 Show, Ysgol Glantaf (more info to follow)*
17.07.19	Llun Ysgol Gyfan Whole School Picture
19.07.19 **2.30pm**	Gwasanaeth Gadael Blwyddyn 6 *Year 6 Leaving Assembly*

Eco-Schools Eco-Sgolion
PSQM Primary Science Quality Mark Valid 2018 - 2021 SILVER AWARD
Challenge Award nace 2019–2022

19.07.19	Diwrnod olaf y flwyddyn academaidd / *Last day of the academic year*
02.09.19	HMS / *Inset Day*
03.09.19	Diwrnod cyntaf tymor yr Hydref i'r disgyblion *First day of the Autumn term for the pupils*
4.10.19	Noson Deulu CRhA – Twmpath *PTA Family Night – Twmpath (Welsh Folk Dancing)*

Siwan Dafydd
Pennaeth Dros Dro

Eco-Schools
Eco-Sgolion
PSQM
Primary Science Quality Mark
Valid 2018 - 2021
SILVER AWARD
CHALLENGE AWARD
nace
2019–2022

Neges gan y GRaA / Note from the PTA

Nodyn gan CRhA Ysgol Pencae *Sefydliad elusennol corfforedig (SEC) 1175972* **Dilynwch ni @pencaepta**	**A note from Ysgol Pencae PTA** *A charitable incorporated organisation (CIO) 1175972* **Follow us @pencaepta**
Cofrestrwch - na oedwch! Mae'r GRhA yn defnyddio Classlist i gyfathrebu ac i drefnu digwyddiadau. A fyddech cystal â chofrestru â Classlist (os nad ydych wedi gwneud eisoes)? Gallwch naill ai lawrlwytho'r app ar eich ffôn (sydd ar gael ar Playstore neu Apple store) neu ewch i: https://start.classlist.com/#/ a dilynwch y cyfarwyddiadau i greu eich cyfrif.	**Register for Classlist!** The PTA uses Classlist for its communications and the organisation of PTA events. Please sign up to Classlist if you haven't already done so. Either download the app onto your phone (it is available on the Playstore or the Apple store) or go to: https://start.classlist.com/#/ and then follow the instructions to set up your account.
Dull hawdd o godi arian i'r ysgol Cofiwch ddefnyddio Easyfundraising os byddwch yn prynu rhywbeth ar-lein. Ewch i https://www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolpencae i helpu i godi arian ar gyfer y GRhaA a'r ysgol.	**An easy way to raise money for the school** If you are buying something online, please use Easyfundraising. Use: https://www.easyfundraising.org.uk/causes/ysgolpencae to help raise valuable funds for the PTA and school.
Am roi rhodd i'r GRhA? Defnyddiwch Wonderful Dyma'r linc: Rhoi i Wonderful	**Want to donate to the PTA?** Use Wonderful You can donate via the link below: Donate to Wonderful
Parentkind **Trysorfa wybodaeth** Ydych chi eisiau cyngor neu syniadau am sut i godi arian? Dyma'r ffynhonnell i chi! https://www.parentkind.org.uk/ I gofrestru ewch i: Sut i ymuno â ParentKind	**Parentkind** **An information hub** Want advice or ideas on funding raising as a parent/carer or class rep? This is the place to look! Go to the link below: https://www.parentkind.org.uk/ Need to register? Go to: How to join ParentKind